Prydau ysgol: cyngor ar rôl arolygu wrth fonitro safonau prydau ysgol

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Diben y cyngor hwn 1

Cefndir 1

Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion a ‘Blas am Oes’ 2

Gwaith yn yr Alban a Lloegr 3

Crynodeb **4**

Argymhellion a chynnig **5**

Arolygu prydau ysgol yn Lloegr a’r Alban **6**

Lloegr 6

Yr Alban 6

Arferion cyfredol yng Nghymru **8**

Arfer gyfredol mewn arolygiadau ysgol 8

Arfer gyfredol mewn arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol 9

Cynigion yn y dyfodol **10**

Arolygiadau ysgol arferol 10

Arolwg ar fwyta ac yfed yn iach 12

Cyflwyniad

Diben y cyngor hwn

1 Mae'r cyngor hwn yn ymwneud â'r:

- graddau y mae arolygiadau cyfredol yn ystyried safon prydau ysgol; a'r
- potensial yng Nghymru am rôl ehangach ar gyfer arolygu wrth fonitro safonau prydau ysgol er mwyn adlewyrchu datblygiadau yn yr Alban a Lloegr a llywio gwaith y Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion (gweler paragraff 8 am esboniad).

Cefndir

2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benderfynol o sicrhau, cynnal a gwella iechyd pobl ifanc yng Nghymru. Oherwydd bod diet da yn bwysig i berfformiad ysgol ac iechyd, mae ystod o fentrau'n cael eu cyflwyno i wella safonau bwyd a maeth mewn ysgolion, gan gynnwys:

- Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgol Iach;
- brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd;
- siopau sy'n gwerthu ffrwythau;
- oeryddion dŵr; a
- chynllun llaeth ysgol cyfnod allweddol 1.

3 Arfer dull ysgol gyfan at wella iechyd disgyblion yw un o themâu allweddol y cynllun gweithredu bwyd a ffitrwydd[1].

4 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu astudiaeth ar y cyd gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd i archwilio pa ddewisiadau bwyd y mae disgyblion yn eu gwneud yn yr ysgol a pham, pa fwydydd maethlon yr hoffent eu bwyta, a pha ffactorau sy'n dylanwadu ar eu dewis.

5 Mae Rheoliad Addysg 2001 (Safonau Maethlon ar gyfer Cinio Ysgol) (Cymru) yn diffinio'r grwpiau bwyd ac yn nodi'r safonau maethlon gofynnol dyddiol ar gyfer disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi cyflwyno arweiniad 'Safonau Maethlon ar gyfer Cinio Ysgol' Cylchlythyr 03/2002. Mae'n cydnabod bod angen adolygu'r arweiniad a bod angen gwneud y safonau yn fwy llym. Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith ond yn caniatáu i safonau gael eu gosod ar gyfer cinio ysgol. Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw rym i wahardd bwydydd penodol o ginio ysgol.

[1] Her Iechyd Cymru – Gweithredu ar fwyd a ffitrwydd ar gyfer plant a phobl ifanc. Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005

6 Mae gan ran 6 Mesur Addysg ac Arolygiadau (2006) adran ar fwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion. Mae'r adran yn datgan y gallai rheoliadau bennu:

- safonau maethlon neu ofynion maethlon eraill unrhyw fwyd a diod;
- darparu dŵr yfed am ddim; ac
- na ddylid darparu bwyd a diod penodol.

7 Yn ogystal, mae'r Mesur yn datgan nad oes yn rhaid i AALlau godi tâl am brydau ysgol bellach, ond gallent wneud hynny.

Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion a 'Blas am Oes'

8 Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion annibynnol ym mis Gorffennaf 2005. Rhoddwyd y dasg i'r Gweithgor hwn o archwilio sut i wella ansawdd a safonau maeth prydau ysgol, a sut i sicrhau dull cyson a chydlynus o ran ysgogi gwelliannau mewn bwyd a maeth mewn ysgolion. Cyhoeddodd y grŵp ddogfen ymgynghorol, 'Blas am Oes', ym mis Mehefin 2006. Mae'r cyfnod ymgynghori'n dod i ben ym mis Hydref 2006.

9 Yn 'Blas am Oes', mae'r grŵp yn nodi safonau ar gyfer bwyd, diod a maetholion, ac mae'n amlinellu 41 cynnig, gan gynnwys:

- bod yn rhaid i ysgolion fodloni'r holl safonau bwyd ar gyfer prydau ysgol a'r cynigion ar gyfer bwyd a diod arall erbyn mis Medi 2008;
- y bydd safonau maetholion newydd ar gyfer prydau ysgol yn cael eu cyflwyno o fis Medi 2008 wedi'u dilyn gan gyfnod gweithredu o flwyddyn (2008-2009) ar gyfer ysgolion cynradd a chyfnod gweithredu o ddwy flynedd (2008-2010) ar gyfer ysgolion uwchradd;
- bod budd maethol clir i ddarpariaeth byrbrydau ac y 'dylid gwahardd' gwerthu melysion, barrau grawnfwyd a byrbrydau sawrus fel creision;
- y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu meddalwedd i ddadansoddi bwydlenni a'u defnyddio fel sylfaen ar gyfer monitro;
- y dylai ysgolion gael polisi bwyd ysgol gyfan;
- y dylai fod yna welliannau o ran hyfforddi a datblygu staff arlwyo; ac
- y dylai'r Cwricwlwm Cenedlaethol roi digon o sylw i faterion bwyd a maeth.

10 Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys adran ar fonitro ac arfarnu. Mae hon yn rhagweld dwy lefel o fonitro – hunanfonitro a monitro allanol. Mae'r ddogfen yn amlinellu rôl ar gyfer Estyn mewn monitro allanol ac mae cynnig 39 yn disgrifio diben y ddogfen gyngor hon:

'Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn am gyngor cychwynnol gan Estyn ar y graddau y mae arolygiadau cyfredol yn ystyried safonau cinio ysgol. Y tu hwnt i hyn, dylid gofyn am gyngor ar wahân ar y potensial i adlewyrchu yng Nghymru ddatblygiadau a gynigiwyd yn yr Alban a Lloegr sy'n rhagweld rôl ehangach ar gyfer arolygu wrth fonitro safonau prydau ysgol'.

Gwaith yn yr Alban a Lloegr

11 Gwnaed llawer o waith ar fwyta'n iach a phrydau ysgol dros nifer o flynyddoedd yn yr Alban trwy fenter 'Hungry for Success'. Yn fwy diweddar yn Lloegr, cyhoeddodd y Panel Adolygu Prydau Ysgol adroddiad o'r enw 'Turning the Tables' a edrychodd ar ddatblygu a gweithredu safonau maethlon ar gyfer prydau ysgol. Yn yr Alban, defnyddir arolygiadau gan Arolygiaeth Addysg EM (HMIE) fel rhan o'r broses o fonitro ac arfarnu'r fenter 'Hungry for Success', ac yn Lloegr, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg mai Ofsted fydd yn arolygu prydau ysgol. Mae Ofsted yn disgwyl ysgolion i gyflwyno tystiolaeth i arolygwyr am eu dull cyffredinol o ran bwyd a bwyta'n iach ac yn fwy penodol am safon prydau ysgol.

Crynodeb

12 Ym mhob arolygiad ysgol yn Lloegr, mae arolygwyr yn arfarnu ac yn adrodd ar waith yr ysgol wrth hyrwyddo a galluogi bwyta ac yfed yn iach. Ym mis Mawrth 2006, cynhaliodd Ofsted arolwg ar raddfa fach ar fwyta'n iach wrth baratoi ar gyfer arolwg mawr i'w gynnal yn 2006-2007. Aeth maethegwyr a benodwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd gydag AEM.

13 Yn yr Alban, mae arbenigwyr maeth wedi mynd gydag AEM ar ryw chwarter o arolygiadau ysgol gynradd ac ar bob arolygiad ysgol arbennig er mwyn arfarnu gweithredu'r fenter 'Hungry for Success'. Mae cynlluniau i gynyddu'r nifer mewn ysgolion cynradd ac i gyflwyno'r un broses mewn tua thair o bob pump o ysgolion uwchradd. Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd mewn ysgolion cynradd ac arbennig yn seiliedig ar yr arfarniadau hyn ym mis Hydref 2005.

14 Er bod y gyfundrefn cylch arolygu yn Lloegr fwy neu lai'r un fath â'r gyfundrefn yng Nghymru, mae'r gyfundrefn gryn dipyn yn wahanol yn yr Alban. Yn benodol, nid yw'r Alban yn arolygu pob ysgol dros gyfnod penodol. O'i chymharu, yng Nghymru, arolygir ysgolion bob chwe blynedd. Byddai ymroddiad tebyg i ddefnyddio arbenigwyr maethol yng Nghymru yn ychwanegu'n sylweddol at gostau arolygu, a fyddai'n cynnwys defnyddio arbenigwyr ychwanegol ar bob arolygiad yn y cylch (mae Estyn yn arolygu tua 300 o ysgolion y flwyddyn).

15 Ar hyn o bryd, ni chynhelir arolygu uniongyrchol o brydau ysgol yng Nghymru fel rhan o'r broses arferol o arolygu ysgolion. Fodd bynnag, mae arolygwyr yn arfarnu'r modd y mae ysgolion yn sicrhau datblygiad iach, diogelwch a lles dysgwyr, yn ogystal â pha mor dda y mae disgyblion yn datblygu eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu. Mae Estyn eisoes yn rhoi arweiniad ar wahân i arolygwyr ar sut i arolygu gweithgaredd corfforol a byw yn iach.

16 Dros y cyfnod o 2006 i 2012, bydd Estyn yn arolygu pob agwedd ar wasanaethau addysg awdurdodau lleol, gan gynnwys darparu a gweinyddu gwasanaethau prydau ysgol. Bydd hyn yn cael ei arolygu pryd bynnag y bydd Estyn yn arolygu gwasanaethau cymorth awdurdod lleol ar gyfer ysgolion.

Argymhellion a chynnig

17 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn i Estyn gynnal arolwg gwaelodlin i fwyta ac yfed yn iach, fel rhan o'i gylch gwaith yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2007 i fis Mawrth 2008. Dylai'r cylch gwaith ofyn i Estyn wneud defnydd o arbenigwyr mewn maeth bwyd, economeg y cartref ac arlwyo a gwaith gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i gynllunio a chynnal arolwg o safonau cyfredol mewn prydau ysgol.

18 Yn ychwanegol, rydym yn cynnig y bydd Estyn yn arolygu gwaith yr ysgol wrth hyrwyddo a galluogi bwyta ac yfed yn iach fel elfen o arolygiadau ysgol arferol o fis Ebrill 2007. Er mwyn gwneud hyn, byddwn:

- yn cyflwyno gofyniad arfarnu newydd am fwyta ac yfed yn iach yn ein llawlyfr arweiniad arolygu ar gyfer ysgolion;
- yn gofyn i arolygwyr adrodd ym mhob adroddiad arolygu ynghylch pa mor dda y mae'r ysgol yn annog bwyta ac yfed yn iach;
- yn darparu arweiniad atodol ar gyfer arolygwyr ar sut i arolygu bwyta ac yfed yn iach; ac
- yn annog ysgolion i gynnwys yn eu hunanarfarniadau sut maent yn hybu bwyta ac yfed yn iach, gan gynnwys adrodd ar ansawdd prydau ysgol gan ddefnyddio'r safonau bwyd a maethol cytûn.

Arolygu prydau ysgol yn Lloegr a'r Alban

Lloegr

19 Yn Lloegr, mae'r trefniadau arolygu newydd a gyflwynwyd ym mis Medi 2005 wedi'u cysylltu'n agos â'r agenda Every Child Matters[2]. Ym mhob arolygiad, mae arolygwyr yn disgwyl i ysgolion gyflwyno tystiolaeth fel rhan o'u hunanarfarniad am eu dull cyffredinol o ran bwyd a bwyta'n iach ac yn fwy penodol am safon prydau ysgol. Mewn adroddiadau, mae arolygwyr Ofsted yn rhoi sylw byr a chyffredinol ar hyn yn yr adran yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chyflawniadau dysgwyr. Er enghraifft, mae un sylw nodweddiadol mewn adroddiad yn datgan bod **'disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i fyw bywyd iach'.** Tuag at ddiwedd pob adroddiad, mae 'tabl o farnau' lle mae arolygwyr yn dyfarnu gradd ar raddfa o un i bedwar ar gyfer y **'graddau y mae dysgwyr yn mabwysiadu ffordd iach o fyw'** yn yr adran 'datblygiad a lles personol'. Yn olaf, mae tabl am y pum canlyniad ar gyfer Mae Pob Plentyn yn Cyfrif sy'n gofyn i arolygwyr ddarparu datganiad 'ie' neu 'na'. Yn yr adran hon o'r adroddiad, mae yna gofnodion ar y canlynol:

- **'caiff dysgwyr eu hannog a'u galluogi i fwyta ac yfed yn iach';**
- **'caiff dysgwyr eu hannog a'u galluogi i wneud ymarfer corff yn rheolaidd'; a**
- **'chaiff dysgwyr eu hannog i beidio ag ysmygu a chamddefnyddio cyffuriau'.**

20 Ym mis Mawrth 2006, cynhaliodd Ofsted arolwg ar raddfa fach o fwyta'n iach mewn deg ysgol[3]. Roedd yr arolwg yn paratoi ar gyfer arolwg mawr i'w gynnal yn 2006-2007. Aeth maethegwyr a benodwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd gydag AEM. Defnyddiodd yr arolwg dystiolaeth hefyd o adroddiadau arolygu ysgolion ac ymweliadau arolygu eraill Ofsted. Mae'r adroddiad yn asesu sut mae ysgolion yn ymateb i arweiniad ar brydau ysgol a bwyta'n iachach.

21 O fis Medi 2006, bydd gan adroddiadau arolygu ysgolion sylwadau i ymateb i gwestiwn mwy penodol am waith yr ysgol mewn perthynas â bwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i hyn arwain at arolygu ansawdd a safon prydau ysgol yn uniongyrchol, ond fe fydd yn hytrach yn arwain at sylw cymharol eang am waith yr ysgol yn hyrwyddo ac yn galluogi bwyta ac yfed yn iach.

Yr Alban

22 Yn yr Alban, dechreuwyd arfarniadau o brydau ysgol i gyd-fynd â chyflwyno argymhellion y fenter 'Hungry for Success'. Ers mis Medi 2004, gwnaed arfarniad manwl o fwyd mewn tua 100 o ysgolion cynradd fel rhan o weithredu'r fenter 'Hungry for Success'. Mae hyn yn cynrychioli tua 5% o gyfanswm yr ysgolion cynradd yn yr

[2] Every Child Matters yw'r rhaglen yn Lloegr ar gyfer gweithredu gofynion Deddf Plant 2004
[3] Healthy Eating in Schools. Ofsted (2006)

Alban. Bydd arolygiadau tebyg yn dechrau cael eu cynnal mewn ysgolion uwchradd o fis Medi 2006. Aseswyr Maeth Cyswllt (Nas) sy'n gweithio ar ran AEM yn yr Alban, sy'n cynnal yr arfarniad ac mae hyn yn ychwanegol i'r arolygiad ysgol safonol. Mae cynlluniau i gynyddu nifer yr arfarniadau hyn mewn ysgolion cynradd. Cyhoeddodd Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi (HMIE) adroddiad ar gynnydd mewn ysgolion cynradd yn seiliedig ar yr arfarniadau hyn ym mis Hydref 2005[4]. Cyflogir Aseswyr Maeth Cyswllt gan HMIE ac maent yn cael cyllid ychwanegol ar eu cyfer.

23 Mae'r Aseswyr Maeth Cyswllt yn ymweld ag ysgol gynradd neu arbennig am ddiwrnod ac maent yn bwriadu ymweld ag ysgol uwchradd am ddiwrnod a hanner. Maent yn ymuno â'r tîm arolygu i gynnal rhaglen o weithgareddau sy'n cynnwys:

- cyfweld â grŵp bach o ddisgyblion;
- cyfweld â staff arlwyo;
- arsylwi gweithgareddau amser cinio;
- adolygu bwydlenni ar gyfer cinio ysgol yn erbyn Safonau Maeth yr Alban; ac
- arolygu dogfennaeth berthnasol fel polisïau a dulliau o gyfathrebu â rhieni.

24 Lle bo'n briodol, bydd yr adroddiad arolygu yn cynnwys cyfeiriadau at gynnydd yr ysgol wrth weithredu argymhellion 'Hungry for Success'. Rhaid i ysgolion hefyd lenwi ffurflen sy'n rhoi gwybodaeth gefndir i Aseswyr Maeth Cyswllt ac adrodd ar gynnydd ysgol wrth weithredu'r argymhellion.

[4] Monitoring the Implementation of 'Hungry for Success': A Whole School Approach to School Meals in Scotland. HMIE (2005)

Arferion cyfredol yng Nghymru

Arfer gyfredol mewn arolygiadau ysgol

25 Ar hyn o bryd, nid yw'r broses arferol o arolygu ysgolion yn cynnwys arolygu prydau ysgol yng Nghymru yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae arolygiadau ysgol yn ceisio ateb **Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?** Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae arolygwyr yn ystyried sut mae ysgolion 'yn sicrhau datblygiad iach, diogelwch a lles dysgwyr'. Yn ein harweiniad arolygu ar gyfer yr agwedd hon ar y cwestiwn allweddol, rydym yn datgan y dylai arolygwyr arfarnu:

- 'a oes gan yr ysgol weithdrefnau clir, wedi'u nodi'n dda ar gyfer sicrhau lles ac iechyd a diogelwch disgyblion pan fyddant yng ngofal yr ysgol; ac

- a yw'r ysgol yn gwneud popeth y gall yn rhesymol i amddiffyn y disgyblion y mae'n gyfrifol amdanynt rhag niwed, ac yn hyrwyddo'u lles trwy ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch a thrwy ei gweithdrefnau o ddydd i ddydd.'

26 Yn ychwanegol, mae arolygwyr yn arfarnu pa mor dda y mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a dysgu. Wrth wneud hyn, mae arolygwyr yn ystyried y medrau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yng ngofynion cyffredin y Cwricwlwm Cenedlaethol a chanlyniadau dysgu'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol[5]. Yn y ddogfen olaf hon, mae yna ganlyniadau sy'n anelu at gynorthwyo disgyblion i fyw bywydau iach. Er enghraifft, mae'r canlyniadau ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn cynnwys 'parchu eu cyrff a chyrff pobl eraill a mwynhau a chymryd mwy o gyfrifoldeb am gadw eu corff yn ddiogel ac yn iach'.

27 Lle mae arolygiadau ysgol yn cynnwys arolygu pynciau, mae arolygwyr yn ystyried y cyfraniad a wneir at fyw yn iach mewn pynciau fel dylunio a thechnoleg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol.

28 Ym mis Ionawr 2005, fe wnaethom gyhoeddi arweiniad[6] ar arolygu gweithgaredd corfforol a byw yn iach. Cyfeiriodd yr arweiniad at Rwydwaith Cymru ar gyfer Cynlluniau Ysgol Iach. Mae'n dangos lle gallai arolygwyr gael tystiolaeth ar gyfer gweithgaredd corfforol a byw yn iach, er enghraifft, yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer ABCh neu mewn pynciau fel addysg gorfforol, gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg. Er mwyn helpu arolygwyr, mae'r arweiniad yn cynnwys cyfres o gwestiynau y gallent eu hystyried wrth arfarnu gwaith yr ysgol. Yn olaf, mae'r arweiniad yn darparu rhai awgrymiadau ynghylch lle gallai arolygwyr adrodd ar weithgaredd corfforol a byw yn iach.

29 Er bod arolygwyr wedi ceisio arfarnu'n fras sut mae disgyblion yn datblygu byw yn iach, ni adroddwyd amdano yn ddigon eglur. O ganlyniad, ychydig iawn o adroddiadau arolygu sy'n cynnwys unrhyw sylwadau clir ar fyw yn iach ac nid oes yr un adroddiad yn sôn am brydau ysgol.

---

[5] Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol. ACCAC (2000)
[6] Materion Arolygu. Argraffiad Ysgolion Rhif 2. Estyn (Ionawr 2005)

Arfer gyfredol mewn arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol

30 Dros gyfnod y cylch arolygu gwasanaethau addysg lleol o 2006 i 2012, bydd pob un o brif feysydd cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn cael eu harolygu. Mae arolygwyr yn arfarnu'r meysydd ar sail y meini prawf a gytunwyd gan Estyn, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae un o'r meysydd hyn yn ymwneud â'r gwasanaethau cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion, ac yn y maes hwnnw mae cyfres o feini prawf ar gyfer prydau ysgol. Felly, pryd bynnag y mae gwasanaethau cymorth ar gyfer ysgolion yn cael eu harolygu, bydd arolygwyr yn arfarnu ac yn adrodd ar ddarparu a gweinyddu gwasanaethau prydau ysgol, gan gynnwys monitro'u hansawdd.

31 Mae'r meini prawf cyfredol ar gyfer arolygu gwasanaethau prydau ysgol awdurdod lleol yn nodi'r nodweddion da canlynol.

- 'Caiff cyfrifoldebau statudol cynghorau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer prydau ysgol am ddim a chynnal ceginau ac offer, eu perfformio'n dda. Mae problemau'n brin, ac ymdrinnir â hwy yn brydlon.

- Mae unrhyw gontract(au) canolog sydd ar gael i ysgolion yn hyblyg o ran dymuniadau ysgolion ac maent yn darparu gwerth da am arian. Mae cymorth cleientiaid rhagweithiol ar gael i ysgolion sy'n dymuno gwneud eu trefniadau eu hunain. Mae problemau yn brin ac ymdrinnir â hwy yn brydlon.

- Mae cyngor da ar gael yn hawdd ar ddewisiadau maeth ac arlwyo.

- Mae monitro ar waith i sicrhau bod ysgolion yn bodloni eu dyletswyddau statudol ar gyfer hylendid, safonau maethol ac iechyd a diogelwch. Mae ymyrraeth, pan fydd angen, yn brydlon ac yn effeithiol.

- Mae ansawdd prydau ysgol yn dda ac yn cefnogi byw yn iach.

32 Teimlwn fod y trefniadau a'r meini prawf arolygu hyn yn briodol ac nid ydym yn bwriadu eu newid.

Cynigion yn y dyfodol

33 Yn y dyfodol, yn ogystal â pharhau â'n harfer gyfredol wrth arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol, rydym yn cynnig:

- ein bod yn sicrhau bod gwaith yr ysgol wrth hyrwyddo a galluogi bwyta ac yfed yn iach yn elfen eglur o arolygiadau ysgol arferol o fis Ebrill 2007; ac

- ein bod yn cynnal arolwg ar fwyta ac yfed yn iach yn ystod 2007-2008 gyda chymorth arbenigwyr o'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn amodol ar gais Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Arolygiadau ysgol arferol

34 Wrth ateb **Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?** mae arolygwyr yn ystyried y modd y mae ysgolion yn 'sicrhau datblygiad iach, diogelwch a lles dysgwyr'. Ar hyn o bryd, nid yw ein llawlyfrau yn rhoi digon o arweiniad i arolygwyr ynglŷn â sut i adrodd ar fwyta ac yfed yn iach. Felly, rydym yn cynnig ein bod yn diwygio'r adran Defnyddio'r Meini Prawf ar gyfer Cwestiwn Allweddol 4 yn y llawlyfrau arweiniad cyn gynted â phosibl, fel y dylai arolygwyr arfarnu p'un a yw'r ysgol 'yn effeithiol wrth annog a galluogi dysgwyr i fod yn iach.' Fel hyn, gallwn sicrhau ein bod yn llunio barn eang o fyw yn iach sy'n cynnwys gweithgaredd corfforol a ffitrwydd yn ogystal â bwyta ac yfed. Byddai hyn yn adlewyrchu nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu dull ysgol gyfan o ran bwyd a maeth.

35 Ar gyfer **Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?** rydym hefyd yn cynnig ei wneud yn ofyniad adrodd y dylai arolygwyr roi sylwadau ynghylch pa mor dda y mae'r ysgol yn annog ac yn galluogi dysgwyr i fod yn iach.

36 Nid ydym yn credu ei bod yn rhesymol nac yn ymarferol i adroddiadau arolygu ysgolion adrodd yn uniongyrchol ar safon prydau ysgol. Dros y blynyddoedd, rydym wedi gwneud arolygiadau yn fyrrach ac yn symlach, ac o ganlyniad, wedi lleihau lefel yr arolygu mewn ysgolion. Roedd cyflwyno'r Fframwaith Arolygu Cyffredin ym mis Medi 2004 yn gam sylweddol ymlaen yn y broses hon. Credwn na allwn ychwanegu gofynion penodol pellach, fel y gofyniad i arolygu safon prydau ysgol, heb wneud arolygiadau yn hirach.

37 Nid oes gan arolygwyr yr ydym yn eu cyflogi mewn ysgolion ar hyn o bryd yr arbenigedd technegol i lunio barnau am werth maethol prydau ysgol.

38 Fodd bynnag, rydym yn ystyried ei bod yn gywir rhoi mwy o bwyslais ar ddull yr ysgol o ran bwyd a maeth yn ystod arolygiadau arferol. Teimlwn fod y dull hwn yn unol â nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i fod yn adlewyrchu'r arweiniad yn 'Blas am Oes'. Nid arolygiadau ysgol yw'r lle cywir i fonitro safonau prydau ysgol. Yn hytrach, rydym yn cytuno â'r cynigion yn 'Blas am Oes':

- y dylid cael cronfa ddata genedlaethol i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r safonau (cynnig 37); ac
- y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal arfarniad ledled Cymru o ddarpariaeth bwyd ysgol (cynnig 40).

39 Bydd y dull yr ydym yn ei gynnig yn adlewyrchu'r dull yn Lloegr lle ceir ffocws eang ar fyw yn iach mewn arolygiadau arferol.

40 Mae'r dull hwn hefyd yn adlewyrchu'r dull yn yr Alban ar gyfer y rhan fwyaf o'u harolygiadau ysgol safonol. Fodd bynnag, yn annhebyg i'r Alban, nid ydym yn cynnig cyflwyno arfarniad manwl gan arbenigwyr maeth mewn sampl o'r ysgolion hyn. Nid ydym yn cynnig gwneud hyn gan nad oes gennym yr adnoddau i gynnal rhaglen o'r fath. Yn yr Alban, dyrennir ychydig yn llai na phumed ran o un swydd AEM i'r gwaith hwn, ynghyd â dau asesydd maeth cyswllt amser llawn ac un asesydd maeth cyswllt rhan-amser (0.6 cyfwerth ag amser llawn), a dyrennir mwy o amser i'r arolygydd arwain ar gyfer yr holl arolygiadau dan sylw. Penodwyd yr aseswyr maeth cyswllt yn benodol i fonitro gweithredu'r fenter 'Hungry for Success'. Mae'r gyfundrefn arolygu yn wahanol yn yr Alban, ac arolygir llai o ysgolion bob blwyddyn o'i gymharu â Chymru. Mae hyn oherwydd nad oes rhaglen yn yr Alban i arolygu un o bob chwe ysgol bob blwyddyn fel sydd yng Nghymru. Felly, byddai'r adnoddau sydd eu hangen yng Nghymru i gopïo'r trefniant hwn gryn dipyn yn uwch. Yn yr Alban, mae AEM yn arwain ac yn cynnal arolygiadau ysgol, ond caiff arolygiadau eu contractio allan yng Nghymru. Yn yr amgylchiadau hyn yng Nghymru, hyd yn oed pe bai'r adnoddau ar gael i ennill amser AEM a chyflogi arbenigwyr maeth, mae'n debygol y byddai angen mwy o gyllid i drefnu a rheoli'r trefniadau a gontractir yn allanol. Felly, credwn nad yw hi'n ymarferol defnyddio'r model hwn yng Nghymru, ond ei bod yn fwy synhwyrol defnyddio model sy'n debyg i'r model yn Lloegr, lle mae'r gyfundrefn arolygu fwy neu lai'r un fath.

41 Fodd bynnag, bydd ychwanegu pwynt bwled newydd at ein llawlyfr arweiniad arolygu yn yr adran 'Defnyddio'r Meini Prawf' ar gyfer **Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?** yn cynyddu'r sylw y mae arolygwyr yn ei roi i fyw, bwyta ac yfed yn iach ym mhob arolygiad ysgol. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn rhoi arweiniad ychwanegol i arolygwyr ysgol trwy arweiniad atodol.

42 Fel a ddywedwyd yn gynharach, rydym eisoes wedi rhoi arweiniad i arolygwyr ar arolygu gweithgaredd corfforol ac agweddau ar fyw yn iach yn Argraffiad Ysgolion Materion Arolygu Rhif 2 (Ionawr 2005). Ein nod yw diweddaru'r arweiniad hwn yng ngoleuni'r cynigion 'Blas am Oes'. Bydd yr arweiniad yn ymdrin â byw yn iach, bwyd a gweithgaredd corfforol. Yn ein harweiniad, byddwn yn amlinellu cyfres o awgrymiadau i arwain arolygwyr wrth iddynt chwilio am dystiolaeth, a bydd hyn yn cyfeirio at fwyd a diod iach yn yr ysgol, a phrydau ysgol. Byddwn yn annog arolygwyr

i edrych yn agos ar adroddiadau hunanarfarnu'r ysgol er mwyn arfarnu pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo ac yn galluogi bwyta'n iach, gan gynnwys ansawdd y bwyd a'r diod sydd ar gael yn yr ysgol. Disgwylir i ysgolion gyflwyno neu gyfeirio at dystiolaeth i gefnogi eu harfarniadau eu hunain yn yr adroddiad hunanarfarnu, a bydd arolygwyr yn cael cyfle i archwilio hyn. Os derbynnir y cynigion yn 'Blas am Oes', yna bydd arolygwyr hefyd yn gallu archwilio polisïau bwyd ysgol gyfan (cynnig 18) ac adroddiadau penaethiaid i lywodraethwyr ar gynnydd wrth fodloni'r amcanion a amlinellwyd yn eu polisi bwyd ysgol gyfan (cynnig 38). Mae 'Blas am Oes' yn cynnig y dylai pob ysgol gael polisïau bwyd erbyn diwedd tymor yr haf 2008.

43 Lle caiff pynciau eu harolygu, byddwn yn parhau â'n harfer gyfredol o ystyried byw yn iach wrth arolygu pynciau fel dylunio a thechnoleg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. Yn ychwanegol, bydd arolygwyr yn ystyried unrhyw newidiadau a wnaed i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y pynciau hynny o fis Medi 2008.

44 Rydym yn cynnig diwygio'r adran yn yr arweiniad cyn gynted ag y gallwn. Byddwn yn llunio arweiniad penodol ac ychwanegol am arolygu bwyta ac yfed yn iach mewn arolygiadau ysgol arferol a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Rhagfyr 2006. Bydd pob arolygiad a gynhelir ar ôl 1 Ebrill 2007 yn adrodd ar y modd y mae ysgolion yn annog ac yn galluogi byw yn iach.

45 Yn gryno, rydym yn cynnig y byddwn, fel rhan o arolygiadau ysgol arferol:

- yn cyflwyno gofyniad arfarnu newydd ar gyfer arolygwyr ynghylch bwyta ac yfed yn iach yn ein llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer ysgolion;
- yn gofyn bod arolygwyr yn adrodd ym mhob adroddiad arolygu ynghylch pa mor dda y mae'r ysgol yn annog ac yn galluogi bwyta ac yfed yn iach;
- yn rhoi arweiniad atodol ar gyfer arolygwyr ar sut i arolygu bwyta ac yfed yn iach; ac
- yn annog ysgolion i gynnwys mwy o fanylion yn eu hunanarfarniadau ar y modd y maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, gan gynnwys adrodd ar ansawdd prydau ysgol gan ddefnyddio'r safonau bwyd a maethol cytûn.

46 Bydd y dyletswyddau arolygu ac adrodd newydd yn cynyddu'r gofynion ar gyfer arolygwyr annibynnol ac maent yn debygol o gynyddu pris arolygiadau.

Arolwg ar fwyta ac yfed yn iach

47 Yn ogystal ag arolygu ysgolion, rydym hefyd yn cynnal nifer o weithgareddau a nodir mewn llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym yn cynnig bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn i Estyn gynnal arolwg gwaelodlin ar fwyta ac yfed yn iach yn y cyfnod 2007-2008. Bydd hyn cyn gweithredu'r cynigion yn 'Blas am Oes'. Bydd arolwg yn ffordd amserol ac effeithiol o ennill dealltwriaeth ynghylch pa mor dda y mae ysgolion yn hyrwyddo ac yn galluogi bwyta ac yfed yn iach. Bydd ymweld â sampl a luniwyd yn ofalus o ysgolion yn caniatáu i ni gyffredinoli o'n canfyddiadau a phennu darlun cynrychioliadol o'r sefyllfa ledled Cymru.

48 Ein harbenigwyr mewn maeth bwyd, economeg y cartref ac arlwyo fydd yn cynnal yr arolwg. Byddwn yn gofyn am gymorth maethegwyr a nodwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Rydym eisoes wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â'r ASB a byddwn yn ymgynghori ymhellach ynghylch dyluniad yr arolwg, gan gynnwys yr awgrymiadau arolygu a'r offer y byddwn yn ei ddefnyddio. Byddwn hefyd yn ymgynghori â'r ASB ar y rôl y gallan nhw, neu faethegwyr a gymeradwywyd ganddynt, ymgymryd â hi wrth fynd gydag arolygwyr ar ymweliadau ysgol. Fodd bynnag, bydd graddfa'r rôl hon yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael gan yr ASB ar gyfer gwaith o'r fath. Trefnir bod yr awgrymiadau a'r offer y bydd arolygwyr yn eu defnyddio ar gael i'r cyhoedd trwy ein gwefan. Rydym yn cynnig y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi mewn copi caled ac ar ein gwefan yn haf 2008. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Estyn a'r ASB brofi'r safonau bwyd a maethol newydd. Yn eu tro, gallai ysgolion ddefnyddio'r safonau fel sylfaen ar gyfer monitro ac ar gyfer llunio'u hadroddiadau hunanarfarnu.